

NDA Monthly Update

January 2019

Summary

- Search starts for geological disposal site
- Winfrith land transfer saves £1.7 million
- Scotland's oldest reactor ready for demolition
- Bradwell achieves a UK first
- New chair announced for Magnox Ltd
- Views sought on draft NDA Business Plan
- Archive named best building in Scotland
- Supply chain event success
- Wylfa defueling almost there
- Exhibition celebrates role of Sellafield's THORP
- Milestone for graduate training scheme
- Apprenticeship boost for Cumbria

Diary Dates 2019

- | | |
|--|----------------|
| • Nuclear Decommissioning and Waste Management Summit 2019, London | 21-22 February |
| • 2019 Waste Management Conference, Phoenix, US | 27 Feb-5 March |
| • European Research Reactor Programme 2019, Jordan | 24 - 28 March |
| • NDA Business Plan publication 2019-2022 | March/April |

NDA Monthly Update – January 2019

Search begins to find site for Geological Disposal Facility

NDA subsidiary Radioactive Waste Management (RWM) has now started the search for a volunteer community to host a future Geological Disposal Facility (GDF). The start of the process follows the publication of the government's statement on how it plans to work with interested communities. Geological disposal is one of the UK's largest-ever environmental protection projects, which will provide a safe and secure long-term disposal solution for higher activity radioactive waste. The Welsh government, meanwhile, has also published its policy, supporting geological disposal for the management of higher activity radioactive waste.

[Weblink: Site search begins for geological disposal facility](#) and [Welsh policy](#)

Winfrith land transfer secures £1.7 million savings

The NDA has secured savings of almost £1.7 million through the sale of land at Winfrith to a waste processing specialist. Tradebe Inutec, an existing tenant, has operated a facility at the Dorset site for more than 30 years and now has greater flexibility to expand or diversify its operations on land adjacent to the former civil nuclear research site - which is now being decommissioned by Magnox Ltd. The agreement will safeguard up to 70 skilled jobs.

[Weblink: Land transferred to waste specialist](#)

Scotland's oldest reactor ready for demolition

The decommissioning of Dounreay's oldest nuclear reactor took a major step forward with the award of a multi-million pound contract. Dounreay Materials Test Reactor (DMTR) was the first operational nuclear reactor in Scotland and achieved criticality in 1958. It was built to test the effects of radiation on different materials and operated for 11 years. Demolition of the reactor building will be a major skyline change for Dounreay, signifying another major hazard reduction milestone at one of the NDA's sites.

[Weblink: Reactor ready for demolition](#)

Bradwell achieves a first for the UK nuclear industry

In a first for the UK nuclear industry, Bradwell Site, in Essex, has reached the passive stage of its journey to full site clearance, an 80-year phase known as 'care and maintenance' (C&M). An extensive programme of decommissioning has been under way since the power station stopped generating electricity in 2002. For C&M, all that will remain on the site are the two weather-proofed reactor buildings, the ponds complex, and the intermediate level waste store, which will continue to receive some packages from Dungeness A and Sizewell A.

[Weblink: Care and Maintenance milestone](#)

NDA Monthly Update – January 2019

New Chair announced for Magnox Ltd

David Peattie, NDA Chief Executive has announced that Lawrie Haynes has been appointed Chair Designate of the NDA subsidiary Magnox Ltd. The new subsidiary will come into being on 1 September 2019 when the current Parent Body Organisation, the Cavendish Fluor Partnership, hands over to the NDA. Lawrie has extensive experience in senior executive and non-executive roles across a range of major private sector companies and high profile public sector organisations, with a strong track record in the nuclear sector. These include his roles as President of Rolls-Royce Land and Sea Division, Chief Executive of British Nuclear Group and Non-Executive Director at Network Rail.

[Weblink: Experienced nuclear leader for Magnox role](#)

NDA seeks views on draft Business Plan

The NDA has published its latest Business Plan for consultations which sets out plans for 2019-2022. Views are sought from members of the public, nuclear regulators, employees within our subsidiaries and Site Licence Companies, trade unions, local authorities, Site Stakeholder Groups, Non-Governmental Organisations, other organisations and public bodies. The consultation closes on 4 February 2019.

[Weblink: Consultation opens on Business Plan](#)

Archive named best building in Scotland

The NDA archive Nucleus (The Nuclear and Caithness Archives) has collected another prestigious award after being named best building in Scotland by one of the industry's professional bodies. The Royal Incorporation of Architects in Scotland (RIAS) selected the £20 million facility, near Wick, for the 2018 Andrew Doolan Award from a shortlist of 12. Earlier this year, it was among 49 Royal Institute of British Architects (RIBA) winners, selected from more than 600 UK entries, and one of 12 Scottish RIAS winners.

[Weblink: Nucleus shines at award 2018](#)

Supply chain event success

A record 1,700 visitors enjoyed a day of exhibitions and informal networking at the Nuclear Decommissioning Authority (NDA) Estate Supply Chain Event. The annual event, now one of the largest of its kind in the world, is held at Manchester's EventCity, and attracts businesses from across the UK and overseas. Launched 8 years ago by the NDA and its businesses, the aim is to create greater visibility of opportunities for suppliers, and in particular for Small and Medium-sized Enterprises (SMEs), who represent around half of the visitor numbers.

[Weblink: Record visitors at event](#)

NDA Monthly Update – January 2019

Wylfa defuelling almost there

Three-quarters of the used nuclear fuel has now been emptied from Wylfa's twin reactors and transported to Sellafield for reprocessing. At the start of defuelling, the reactors contained almost 90,000 fuel elements and 33,800 are now left. Once the reactors are empty, and all the fuel elements have been dispatched to Sellafield, over 99 per cent of the site's radiological hazard will have been removed.

[Weblink: Wylfa reactors 75% defuelled](#)

Exhibition marks THORP's contribution

An exhibition at Whitehaven's Beacon Museum will mark the end of nuclear fuel reprocessing at Sellafield's Thermal Oxide Reprocessing Plant (THORP), expected during November. The *Art of Reprocessing* will open on 16 November to celebrate the plant's contribution to the global nuclear industry. THORP, which began operations in 1994, was one of the largest construction projects of its day, ranking alongside the Channel Tunnel and Disneyland Paris in sheer scale and ambition. Its switch-off is a key step in the transformation of Sellafield Ltd from nuclear operator to environmental restoration business.

[Weblink: Exhibition celebrates THORP contribution](#)

Graduate training scheme milestone

The NDA has celebrated 10 years of its *nucleargraduates* scheme. The milestone was marked at a celebratory dinner where NDA Chief Executive David Peattie pledged a renewed boost to the scheme over the next 10 years in a bid to help futureproof and diversify the UK's nuclear workforce. It will see the NDA invest around £15 million in total skills over the next 10 years. To date, 344 graduates have completed the programme.

[Weblink: Graduate training scheme celebrates 10th anniversary](#)

Apprenticeship boost for Cumbria

Sellafield Ltd will fund 50 new apprenticeships a year for small companies in Cumbria. The new 'North West Nuclear Community Apprenticeship Programme' will boost employment opportunities for local people, and help drive economic growth in the region. The courses will range from customer services, property maintenance and scaffolding to more diverse professions like logistics and horticulture. Developed by Sellafield Ltd, the programme will be delivered and managed by the Cumbria Apprentice Training Agency (CATA), who will work with the employers, employment agencies and a range of local training providers. It is supported by the NDA, Nuclear Skills Strategy Group (NSSG), Cumbria Local Enterprise Partnership (LEP) and the Britain's Energy Coast Business Cluster (BECBC).

[Weblink: Training boost for region:](#)

Diweddariad Misol yr NDA

Ionawr 2019

Crynodeb

- Dechrau chwilio am safle gwaredu daearegol
- Arbed £1.7 miliwn drwy drosglwyddo tir Winfrith
- Adweithydd hynaf yr Alban yn barod i'w ddymchwel
- Bradwell yn cyflawni'r cyntaf o'i fath yn y DU
- Cyhoeddi enw cadeirydd newydd ar gyfer Magnox Ltd
- Gofyn am safbwyntiau ar Gynllun Busnes yr NDA
- Archive yn cael ei enwi fel yr adeilad gorau yn yr Alban
- Llwyddiant y digwyddiad cadwyn gyflenwi
- Bron â gorffen gwagio tanwydd Wylfa
- Arddangosfa yn dathlu THORP Sellafield
- Carreg filltir i gynllun hyfforddi graddedigion
- Hwb prentisiaeth i Cumbria

Dyddiadau ar gyfer y Dyddiadur yn 2019

- | | |
|--|----------------------|
| • Uwchgynhadledd ar Ddatgomiynu Niwclear a Rheoli Gwastraff 2019, Llundain | 21-22 Chwefror |
| • Cynhadledd ar Reoli Gwastraff 2019, Phoenix, UDA | 27 Chwefror-5 Mawrth |
| • Rhaglen Adweithyddion Ymchwil Ewropeaidd 2019, Iorddonen | 24 - 28 Mawrth |
| • Cyhoeddi Cynllun Busnes yr NDA 2019-2022 | Mawrth/Ebrill |

Diweddariad Misol yr NDA – Ionawr 2019

Dechrau chwilio am safle ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol

Mae Is-gwmni Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yr NDA nawr wedi dechrau chwilio am gymuned a fyddai'n fodlon derbyn Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn y dyfodol. Mae'r broses yn dechrau ar ôl cyhoeddi datganiad y llywodraeth ar sut y mae'n bwriadu gweithio gyda chymunedau â diddordeb. Gwaredu daearegol yw un o brosiectau diogelu'r amgylchedd mwyaf y DU erioed, a bydd yn ffordd ddiogel o waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y tymor hir. Yn y cyfamser, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur polisi sy'n cefnogi dull gwaredu daearegol ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd.

[Dolen: Dechrau chwilio am safle ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol](#) a [pholisi Cymru](#)

Arbed £1.7 miliwn drwy drosglwyddo tir Winfrith

Mae'r NDA wedi sicrhau arbedion o bron i £1.7 miliwn drwy werthu tir yn Winfrith i arbenigwr prosesu gwastraff. Mae Tradebe Inutec, y tenant presennol, wedi bod yn rhedeg cyfleuster ar safle Dorset am dros 30 mlynedd a bellach mae ganddo fwy o hyblygrwydd i ehangu neu arallgyfeirio ei weithrediadau ar dir gerllaw'r hen safle ymchwil niwclear sifil - sy'n cael ei ddatgomisiynu gan Magnox Ltd ar hyn o bryd. Bydd y cytundeb yn diogelu hyd at 70 o swyddi medrus.

[Dolen: Trosglwyddo tir i arbenigwr gwastraff](#)

Adweithydd hynaf yr Alban yn barod i'w ddymchwel

Roedd dyfarnu contract gwerth miliynau o bunnoedd iddo yn gam pwysig ymlaen i broses datgomisiynu adweithydd niwclear hynaf Dounreay. Adweithydd Profi Deunyddiau Dounreay (DMTR) oedd yr adweithydd niwclear gweithredol cyntaf yn yr Alban ac fe sicrhodd gritigoldeb ym 1958. Fe'i hadeiladwyd i brofi effeithiau ymbelydredd ar wahanol ddeunyddiau a bu'n gweithredu am 11 mlynedd. Bydd dymchwel adeilad yr adweithydd yn newid nenlinell Dounreay yn sylweddol, ac yn gam pwysig arall tuag at leihau peryglon ar un o safleoedd yr NDA.

[Dolen: Adweithydd yn barod i'w ddymchwel](#)

Bradwell yn cyflawni'r cyntaf o'i fath ar gyfer diwydiant niwclear y DU

Yn y gyntaf o'i fath ar gyfer diwydiant niwclear y DU, mae Safle Bradwell, yn Essex, wedi cyrraedd cam goddefol ei daith tuag at glirio'r safle'n gyfan gwbl, sef cyfnod 80 mlynedd a elwir yn 'gofal a chynnal a chadw'. Mae rhaglen ddatgomisiynu helaeth wedi bod yn mynd rhagddi ers i'r orsaf bŵer roi'r gorau i gynhyrchu trydan yn 2002. O ran gofal a chynnal a chadw, yr unig bethau fydd ar ôl ar y safle fydd dau adeilad adweithydd gwrthdywydd, y cyfadeiladau pyllau, a'r storfa gwastraff lefel ganolraddol, a fydd yn parhau i dderbyn rhywfaint o becynnau o Dungeness A a Sizewell A.

[Dolen: Carreg filltir Gofal a Chynnal a Chadw](#)

Diweddariad Misol yr NDA – Ionawr 2019

Cyhoeddi enw Cadeirydd newydd ar gyfer Magnox Ltd

Mae David Peattie, Prif Weithredwr yr NDA, wedi cyhoeddi bod Lawrie Haynes wedi'i benodi'n Ddarpar Gadeirydd is-gwmni yr NDA, Magnox Ltd. Bydd yr is-gwmni newydd yn dod i rym ar 1 Medi 2019 pan fydd y Rhiant-gorff presennol, Cavendish Fluor Partnership, yn trosglwyddo'r awenau i'r NDA. Mae gan Lawrie brofiad helaeth mewn swyddi uwch gweithredol ac anweithredol ar draws ystod o gwmnïau mawr yn y sector preifat a sefydliadau proffil uchel yn y sector cyhoeddus, ac mae ganddo brofiad cryf yn y sector niwclear. Mae'r rhain yn cynnwys ei swyddi fel Arlywydd Is-adran Tir a Môr Rolls-Royce, Prif Weithredwr Grŵp Niwclear Prydain a Chyfarwyddwr Anweithredol yn Network Rail.

[Dolen: Arweinydd niwclear profiadol ar gyfer Magnox](#)

NDA yn gofyn am safbwyntiau ar y Cynllun Busnes drafft

Mae'r NDA wedi cyhoeddi ei Gynllun Busnes diweddaraf at ddibenion ymgynghori sy'n nodi'r cynlluniau ar gyfer 2019-2022. Gofynnir am adborth gan aelodau o'r cyhoedd, rheoleiddwyr niwclear, gweithwyr yn ein his-gwmnïau a Chwmnïau Trwydded Safle, undebau llafur, awdurdodau lleol, Grwpiau Rhanddeiliaid Safleoedd, Cyrff Anllywodraethol, sefydliadau a chyrrff cyhoeddus eraill. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 4 Chwefror 2019.

[Dolen: Ymgynghoriad yn agor ar y Cynllun Busnes](#)

Archive yn cael ei enwi fel yr adeilad gorau yn yr Alban

Mae archif yr NDA Nucleus (Archifau Niwclear a Caithness) wedi ennill gwobr anrhydeddus arall ar ôl cael ei enwi fel yr adeilad gorau yn yr Alban gan un o gyrff proffesiynol y diwydiant. Dewisodd Corfforaeth Frenhinol Penseiri'r Alban (RIAS) y cyfleuster £20 miliwn hwn, ger Wick, ar gyfer Gwobr Andrew Doolan 2018 o restr fer o 12. Yn gynharach eleni, roedd ymhlith 49 o enillwyr Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), a ddewiswyd o blith mwy na 600 o ymgeiswyr yn y DU, ac roedd yn un o 12 enillydd RIAS yr Alban.

[Dolen: Nucleus yn disgleirio yng ngwobrau 2018](#)

Llwyddiant y digwyddiad cadwyn gyflenwi

Mwynhaodd 1,700 o ymwelwyr, sef y record fwyaf erioed, ddiwrnod o arddangosfeydd a rhwydweithio anffurfiol yn y Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi gan yr Awdurdod Datgomiysu Niwclear. Cynhelir y digwyddiad blynyddol, sydd bellach yn un o'r rhai mwyaf o'i fath yn y byd, yn EventCity Manceinion, ac mae'n denu busnesau o bob cwr o'r DU a thramor. Cafodd ei lansio 8 mlynedd yn ôl gan yr NDA a'i fusnesau, â'r nod o greu cyfleoedd amlycach i gyflenwyr, ac yn arbennig Mentrau Bach a Chanolig, sy'n cynrychioli tua hanner niferoedd yr ymwelwyr.

[Dolen: Mwy o ymwelwyr nag erioed o'r blaen yn dod i'r digwyddiad](#)

Diweddariad Misol yr NDA – Ionawr 2019

Bron â gorffen gwagio tanwydd Wylfa

Mae tri chwater y tanwydd niwclear sydd wedi cael ei ddefnyddio bellach wedi cael ei wagio o ddau adweithydd Wylfa a'i gludo i Sellafield i'w ailbroseu. Ar ddechrau'r broses o dynnu tanwydd, roedd bron i 90,000 o elfennau tanwydd yn yr adweithyddion ac mae 33,800 nawr ar ôl. Unwaith y bydd yr adweithyddion yn wag, ac y bydd yr holl elfennau tanwydd wedi cael eu hanfon i Sellafield, bydd dros 99 y cant o beryglon radiolegol y safle wedi cael eu tynnu.

[Dolen: 75% o'r tanwydd wedi'i dynnu o adweithyddion Wylfa](#)

Arddangosfa yn nodi cyfraniad THORP

Bydd arddangosfa yn Amgueddfa Beacon Whitehaven yn nodi diwedd ailbroseu tanwydd niwclear yn THORP (Thermal Oxide Reprocessing Plant) Sellafield, a ddisgwylir ym mis Tachwedd. Bydd *Art of Reprocessing* yn agor ar 16 Tachwedd i ddathlu cyfraniad yr orsaf at y diwydiant niwclear yn fyd-eang. Dechreuodd THORP weithredu yn 1994 ac roedd yn un o brosiectau adeiladu mwyaf y cyfnod, ar yr un raddfa â Thwnnel y Sianel a Disneyland Paris o ran maint ac uchelgais. Mae ei ddiffodd yn gam pwysig wrth i Sellafield Ltd newid o fod yn weithredwr niwclear i fod yn fusnes adfer amgylcheddol.

[Dolen: Arddangosfa yn dathlu cyfraniad THORP](#)

Carreg filltir cynllun hyfforddi graddedigion

Mae'r NDA wedi dathlu 10 mlynedd o'i gynllun graddedigion niwclear. Cafodd y garreg filltir ei nodi mewn cinio i ddathlu lle'r oedd Prif Weithredwr NDA, David Peattie, wedi addo rhoi hwb o'r newydd i'r cynllun dros y 10 mlynedd nesaf mewn ymgais i helpu i sicrhau amrywiaeth gweithlu niwclear y DU a sicrhau bod y gweithlu'n addas ar gyfer y dyfodol. Bydd yn golygu bod yr NDA yn buddsoddi tua £15 miliwn gyda'i gilydd mewn sgiliau dros y 10 mlynedd nesaf. Hyd yn hyn, mae 344 o raddedigion wedi cwblhau'r rhaglen.

[Dolen: Cynllun hyfforddi graddedigion yn dathlu 10^{fed} pen-blwydd](#)

Hwb prentisiaeth i Cumbria

Bydd Sellafield Ltd yn ariannu 50 prentisiaeth newydd y flwyddyn ar gyfer cwmnïau bach yn Cumbria. Bydd 'Rhaglen Prentisiaethau Cymunedol Niwclear Gogledd Orllewin Lloegr' yn rhoi hwb i gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ac yn helpu i sbarduno twf economaidd yn y rhanbarth. Bydd y cyrsiau'n amrywio o wasanaethau cwsmeriaid, cynnal a chadw eiddo a sgaffaldiau i broffesiynau mwy amrywiol fel logisteg a garddwriaeth. Mae'r rhaglen wedi cael ei datblygu gan Sellafield Ltd a bydd hi'n cael ei darparu a'i rheoli gan Asiantaeth Hyfforddi Prentisiaid Cumbria (CATA) a fydd yn gweithio gyda'r cyflogwyr, yr asiantaethau cyflogaeth ac amrywiaeth o ddarparwyr hyfforddiant lleol. Caiff ei chefnogi gan yr NDA, Nuclear Skills Strategy Group (NSSG),

Diweddariad Misol yr NDA – Ionawr 2019

Cumbria Local Enterprise Partnership (LEP) a Britain's Energy Coast Business Cluster (BECBC).

[Dolen: Hwb hyfforddiant i'r rhanbarth:](#)